



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2020
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 4 Rhagfyr 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn ar gynigion i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg dynnu enw unigolyn sydd wedi cofrestru dros dro oddi ar gofrestr y gweithlu addysg fel mesur interim.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu eu postio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **4 Rhagfyr 2020** fan bellaf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: SMED2@gov.wales

Ffôn: (0300) 0259914



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu drefnu ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i gynnal y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, bydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Crynodeb | 1 |
| Cyngor y Gweithlu Addysg – y sefyllfa bresennol | 2 |
| Pam y credwn y dylai'r Cyngor gael pwerau i wneud gorchmynion atal dros dro interim | 4 |
| Rheswm 1 - Risg o ran diogelu | 4 |
| Rheswm 2 - Pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin i rannu gwybodaeth | 5 |
| Rheswm 3 – Cyfyngiadau dulliau eraill a ddefnyddir i amddiffyn plant | 6 |
| Pryd y byddai'r Cyngor yn ystyried gwneud gorchymyn atal dros dro interim? | 8 |
| Prawf “Budd y Cyhoedd” | 8 |
| Ystyriaethau pellach | 10 |
| Beth fyddai'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn atal dros dro interim? | 10 |
| Yr hawl i ofyn am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim | 12 |
| Adolygu gorchymyn atal dros dro interim gan y Cyngor | 14 |
| Pryd y câi gorchymyn atal dros dro interim ei ddiddymu? | 14 |
| Defnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor | 14 |
| Crynodeb o Orchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) | 15 |
| Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) | 21 |
| Memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol drafft. | 21 |
| Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad | 21 |

Crynodeb

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn ar gynigion i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg dynnu enw unigolyn sydd wedi cofrestru dros dro oddi ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru fel mesur interim.

Atodir Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) ("y Gorchymyn arfaethedig",) a fyddai'n rhoi'r pŵer hwn i atal dros dro i'r Cyngor, yn Atodiad A.

Ceir gwybodaeth am y Cyngor a'i waith yn:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/22-cymraeg/about-cym.html>

Ceir deddfwriaeth berthnasol yma:

Deddf Addysg (Cymru) 2014:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/5/contents>

[Deddf Addysg 2002 \(fel y'i diwygiwyd\):](#)

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/contents>

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (fel y'i diwygiwyd):

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/140/contents/made>

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/6/contents/made>

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd):

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/873/contents/made>

Rheoliadau Staffio Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2014:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/1609/contents/made>

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2009:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/2708/contents/made>

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/3161/contents/made>

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/944/contents/made>

Cyngor y Gweithlu Addysg – y sefyllfa bresennol

1. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn ar gynigion i roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") dynnu enw unigolyn sydd wedi cofrestru dros dro oddi ar gofrestr y gweithlu addysg fel mesur interim.
2. Dim ond pe bai'r Cyngor yn credu ei bod er budd y cyhoedd y câi'r penderfyniad i atal unigolyn dros dro ei wneud, a byddai hynny'n digwydd tra'n aros i ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu gael eu cynnal.
3. Atodir Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchymynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) ("y Gorchymyn arfaethedig") a fyddai'n gweithredu'r cynigion hyn yn Atodiad A, ac fe'i trafodir yn fanwl ym mharagraffau 96 i 140 isod.
4. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ymateb i argymhelliad 21 o'r Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg yn ei *Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon*¹, sef y dylid "... ymestyn cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn rhoi iddo'r pŵer i atal athrawon dros dro mewn amgylchiadau priodol". Fodd bynnag, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i atal pob categori o Bersonau Cofrestredig, nid dim ond athrawon ysgolion.
5. Caiff Gorchymynion Atal Dros Dro Interim eu defnyddio'n aml gan reoleiddwyr proffesiynol fel ffordd o atal cofrestriad unigolyn dros dro tra cynhelir ymchwiliad i fater sy'n peri pryder difrifol neu tra arhosir am ganlyniad achos troseddol yn ymwneud â honiad difrifol.
6. Parhawyd â bodolaeth y Cyngor gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Fe'i gelwid gynt yn Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("CyngACC"). Daeth y newid hwnnw i rym ar 1 Ebrill 2015.
7. Y Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer y canlynol:
 - athrawon ysgol;
 - gweithwyr cymorth dysgu ysgolion;
 - athrawon addysg bellach (darlithwyr);
 - gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach;
 - ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
 - gweithwyr ieuenctid cymwysedig; a
 - gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.
8. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor tua 80,000 o gofrestreion.
9. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cofrestr y ("Gofrestr") o dan adran 9 o Ddeddf 2014 a chaniatáu i'r cyhoedd weld y Gofrestr honno o dan Reoliad 14 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

¹ Ar gael ar: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11338/cr-ld11338-w.pdf>

Mae'r Gofrestr yn rhestru pawb sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor ar yr adeg honno yn y categorïau a restrwyd uchod ("Personau Cofrestredig"), ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor.²

10. O dan adran 26 o Ddeddf 2014, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal y cyfryw ymchwiliadau ag sy'n briodol, yn ei farn ef, pan honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod y Person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol³.
11. Caiff y Cyngor osod Gorchymyn disgyblu ar Person Cofrestredig yn dilyn ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu a gynhaliwyd ganddo yn unol â'r darpariaethau disgyblu yn adrannau 26 i 32 o Ddeddf 2014 a Rhan 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.
12. Bydd person yn aros ar y Gofrestr nes iddo gael ei dynnu oddi arni, o ganlyniad i Orchymyn disgyblu. Mae Gorchymyn disgyblu yn un o'r canlynol:
 - cerydd,
 - gorchymyn cofrestru amodol,
 - gorchymyn atal dros dro, neu
 - gorchymyn gwahardd.

Caiff person ei dynnu oddi ar y Gofrestr os bydd yn ddarostyngedig i orchymyn atal dros dro neu orchymyn gwahardd.

13. Nid yw pwerau'r Cyngor o dan Ddeddf 2014 yn caniatáu iddo osod gorchymyn atal dros dro interim ("ISO") er mwyn atal Person Cofrestredig dros dro tra'n aros i ymchwiliad neu wrandawriad disgyblu gael ei gynnal. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw natur yr honiadau yn ei erbyn yn gredadwy ac yn ddifrifol, ac yn codi risgiau sylweddol o ran diogelu. Gallai'r hyder yn y gwaith o reoleiddio'r proffesiwn gael ei danseilio drwy ganiatáu i Person Cofrestredig aros ar y Gofrestr o dan yr amgylchiadau hyn.

Trosolwg o'r cynigion

14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y cynnig i roi pwerau newydd i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i osod, adolygu a diddymu gorchymynion atal dros dro interim.⁴
15. Byddai ein cynigion yn galluogi'r Cyngor i osod gorchymyn atal dros dro interim ar ymarfer Person Cofrestredig pe bai'r Cyngor yn credu y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

² Mae'r Gofrestr ar gael yn: <https://www.myewc.wales/cy/>

³ Ystyr "Trosedd Berthnasol" yw tramgwydd troseddol, ac eithrio pan nad yw'r drosedd honno yn berthnasol i addasrwydd unigolyn i fod yn Person Cofrestredig (Gweler adran 27(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014).

⁴Cynhaliodd y Cyngor ei ymgynghoriad ei hun ynghylch p'un a ddylai fod ganddo bwerau mewn perthynas â gorchymynion atal dros dro rhwng 21 Tachwedd a 21 Rhagfyr 2018. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael yn: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/ymgynghoriad-i-osod-gorchymynion-atal-dros-dro.html>

16. Tra bydd gorchymyn atal dros dro interim mewn grym, ni fyddai'r Person Cofrestredig y gosodir y gorchymyn yn ei erbyn:
 - yn gallu gweithio mewn unrhyw rôl lle mae angen cofrestru â'r Cyngor;
 - yn gallu cyfeirio ato'i hun fel "Person Cofrestredig"; a hefyd
 - yn ymddangos ar y Gofrestr fel "Person Cofrestredig".
17. Yn hytrach na bod yn "orchymyn disgyblu", byddai gorchymyn atal dros dro interim yn gam dros dro a gymerid tra'n aros i ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu gael eu cynnal. Bydd gorchymyn atal dros dro interim yn peidio â bod yn weithredol pan ddaw'r cyfnod y'i gosodwyd ar ei gyfer i ben. Gallai gorchymyn atal dros dro interim gael ei osod am gyfnod o hyd at 18 mis.
18. Byddai hawl i adolygu gorchymyn atal dros dro interim ar gais yr unigolyn y mae'n ymwneud ag ef ("y cyn-Berson Cofrestredig") o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl i'r Gorchymyn gael ei osod a bob chwe mis wedi hynny.
19. At hynny, byddai'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd fel y bo'n briodol, yn ei farn ef. Mae hynny'n cynnwys, er enghraifft, os bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth gan y cyn-Berson Cofrestredig sy'n berthnasol i barhad y gorchymyn atal dros dro interim.
20. Bydd y Cyngor yn gallu diddymu gorchymyn atal dros dro interim yn dilyn adolygiad y gofynnwyd amdano gan gyn-Berson Cofrestredig, neu unrhyw bryd cyn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid gosod gorchymyn disgyblu ai peidio, os na fydd o'r farn mwyach ei bod er budd y cyhoedd os bydd y gorchymyn atal dros dro interim yn parhau mewn grym.
21. Ni fyddai'r penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim yn seiliedig ar benderfyniad terfynol ynghylch y ffeithiau sy'n ymwneud â honiadau'r achos. Byddai'n cael ei wneud ar wahân i'r penderfyniad i osod Gorchymyn disgyblu terfynol. Felly, ni fyddai'r penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim o reidrwydd yn golygu y caiff gorchymyn disgyblu ei osod wedi hynny gan y Cyngor.

Pam y credwn y dylai'r Cyngor gael pwerau i wneud gorchymynion atal dros dro interim

Rheswm 1 - Risg o ran diogelu

22. O dan adran 26 o Ddeddf 2014, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal y cyfryw ymchwiliadau ag sy'n briodol, yn ei farn ef, pan honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod y Person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol⁵. Pan fydd y Cyngor yn derbyn atgyfeiriad, bydd yn mynd drwy gam archwilio cychwynnol, i

⁵ Ystyr "Trosedd Berthnasol" yw tramgwydd troseddol, ac eithrio pan nad yw'r drosedd honno yn berthnasol i addasrwydd unigolyn i fod yn Berson Cofrestredig (Gweler adran 27(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014).

benderfynu a oes achos i'w ateb. Os oes penderfyniad bod achos i'w ateb, bydd gwrandawriad cyhoeddus yn cael ei gynnal. Yn y gwrandawriad hwnnw, bydd pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a ddarperir, ac yn penderfynu os yw'r honiadau wedi cael eu profi. Os felly, bydd y pwyllgor yn ystyried a yw'r honiadau a gafodd eu profi yn cyfrif fel ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, ac a ddylid gosod gorchymyn disgyblu. Fel uchod, ni fydd pob cosb sy'n cael ei gosod ar ôl gwrandawriad yn arwain at dynnu enw oddi ar y Gofrestr.

23. Rhaid i enw Person Cofrestredig aros ar y Gofrestr drwy gydol y cyfnod cyn i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau gan y Cyngor. Mae'r Gofrestr yn agored i'r cyhoedd a gellir ei gweld ar-lein. Mae hyn yn golygu, tra bydd yr heddlu yn ymchwilio i honiad difrifol a chredadwy yn erbyn Person Cofrestredig sy'n codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu, y bydd y person hwnnw yn aros ar y Gofrestr.
24. Mae'r Cyngor o'r farn bod hyn yn fethiant difrifol am ei fod yn galluogi unigolyn i barhau i ddibynnu ar ei statws fel Person Cofrestredig am fisoedd lawer o bosibl, waeth pa mor ddifrifol a chredadwy yw'r honiadau yn ei erbyn.
25. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai hyn beri risg sylweddol o ran diogelu. Er enghraifft, pe bai rhiant yn chwilio am diwtor preifat i'w blentyn ac yn chwilio'r Gofrestr, mae'n debygol y byddai'n cael sicrwydd bod unigolyn yn addas i fod yn diwtor preifat i'w blentyn pe bai ganddo statws Person Cofrestredig. Gallai cyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi hefyd ddibynnu ar y ffaith bod unigolyn wedi'i gofrestru â'r Cyngor fel arwydd bod y person yn addas i weithio.
26. Pe bai gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, gallai dynnu enw unigolyn oddi ar y Gofrestr tra'n aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau gan yr heddlu a'i broses ymchwilio a disgyblu ei hun. Byddai unrhyw un a fyddai'n chwilio'r Gofrestr drwy gydol cyfnod y gorchymyn atal dros dro interim yn dysgu nad oedd gan yr unigolyn statws Person Cofrestredig.

Rheswm 2 - Pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin i rannu gwybodaeth

27. Cynllun Datgelu'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin (CLPD)⁶ yw'r cynllun presennol sy'n galluogi'r heddlu i rannu gwybodaeth â phobl neu gyrff penodol. Disodlodd y Cynllun Galwedigaethau Hysbysadwy (NOS) yn 2015.
28. O dan NOS, hysbyswyd partiön perthnasol pan gafodd unigolyn mewn galwedigaeth berthnasol ei ddyfarnu'n euog o drosedd. Roedd y galwedigaethau perthnasol hynny yn cynnwys y gweithlu addysg, a rhoddwyd hysbysiadau i gyflogwyr a'r Cyngor; a, chyn hynny, i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC).

⁶ Gweler <https://www.app.college.police.uk/wp-content/uploads/2016/08/NPCC-2017-Common-Law-Police-Disclosures-CLPD---Provisions-to-supersede-the-Notifiable-Occupations-Scheme-NOS.pdf>

29. O dan y cynllun CLPD newydd, rhoddir hysbysiadau pan gaiff unigolion eu cyhuddo ac, mewn rhai achosion, eu harestio, yn hytrach na phan gânt eu dyfarnu'n euog o drosedd. Dim ond os bydd yr heddlu yn credu bod risg ddifrifol ac uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd wedi'i nodi, a bod angen gweithredu ar unwaith, y rhoddir hysbysiadau.
30. Felly, fel arfer, dim ond i'r partïon neu'r sefydliadau perthnasol hynny a all gymryd camau o'r fath ac, felly, liniaru'r risg hon, y rhoddir hysbysiadau. Er enghraifft, gall yr heddlu hysbysu cyflogwr unigolyn – neu sefydliad gwirfoddol y mae unigolyn yn gwneud gwaith gwirfoddol iddo – am fod partïon neu sefydliadau o'r fath yn gallu atal yr unigolyn rhag gweithio tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad gan yr heddlu.
31. Mae'r CLPD hefyd yn nodi y gall fod amgylchiadau lle mae'n briodol cysylltu â chorff rheoleiddio neu awdurdod trwyddedu. Dywed paragraffau 10 ac 11 o'r CLPD:

“NPCC [The National Police Chiefs’ Council] maintains a list of regulatory bodies and licensing authorities (together with contact details) that have been able to demonstrate that they possess powers (such as the imposition of an interim prohibition order) to implement immediate mitigation of the potential risk that the subject of the disclosure poses.

Disclosure to an employer or volunteer organisation does not preclude simultaneous disclosure to a regulatory body or licensing authority where appropriate. Reliance cannot be placed on the employer (etc.) subsequently informing the regulator (etc.). The purpose of making a disclosure is to allow the recipient to mitigate risk – the regulator (etc.) may possess wider powers to implement such mitigation (such as the ability to impose an interim prohibition order or suspend a licence etc).”⁷

32. Mae'n bosibl na fydd rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn golygu y caiff pob honiad difrifol sy'n ymwneud â Phersonau Cofrestredig ei atgyfeirio ato'n awtomatig. Ond, pe bai'r Cyngor yn meddu ar bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim ac yn gallu cymryd camau buan, mae'n bosibl y byddai'r heddlu yn fwy tebygol o atgyfeirio honiadau difrifol sy'n ymwneud â Phersonau Cofrestredig at y Cyngor o dan CLPD.
33. mater i'r heddlu fyddai penderfynu a ddylid atgyfeirio honiad at y Cyngor, gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud fesul achos.

Rheswm 3 – Cyfyngiadau dulliau eraill a ddefnyddir i amddiffyn plant

34. Er bod amrywiaeth o ddulliau yn cael eu defnyddio i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag unigolion a allai beri niwed iddynt, mae'n bosibl nad yw'r dulliau hyn yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon ynghylch diogelu, er enghraifft,

⁷ Gweler tudalen 2 o <https://www.app.college.police.uk/wp-content/uploads/2016/08/NPCC-2017-Common-Law-Police-Disclosures-CLPD---Provisions-to-supersede-the-Notifiable-Occupations-Scheme-NOS.pdf>

defnyddio statws “Person Cofrestredig” ar y Gofrestr gyhoeddus i gael gwaith fel tiwtor cartref.

35. Trafodir y dulliau amddiffyn hyn, a'r rhesymau pam nad ydym yn credu eu bod yn mynd i'r afael â'r risg o ran diogelu sy'n ymwneud â'r defnydd o statws Person Cofrestredig, isod.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

36. Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn 2012 ac mae'n cyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.
37. Mae ei Dîm Datgelu yn cynnal gwiriadau cofnodion troseddol sy'n arwain at roi tystysgrifau'r DBS i unigolion. Wedyn, gall cyflogwyr ofyn am gael gweld y tystysgrifau er mwyn sicrhau eu bod yn recriwtio pobl addas i'w sefydliad.
38. Er mwyn gwneud hyn, mae'r DBS yn gweithio gyda nifer o sefydliadau ac adrannau gwahanol, gan gynnwys:
 - Heddluoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw – mae'r Heddlu yn darparu gwybodaeth a gedwir yn lleol neu sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu; a
 - Swyddfa Cofnodion Troseddol ACRO – sy'n rheoli gwybodaeth am gofnodion troseddol ac yn gwella'r modd y caiff cofnodion troseddol a gwybodaeth fiometrïg eu cyfnewid.
39. Ar ôl i'r DBS gael gwybodaeth gan unrhyw un o'r sefydliadau hyn am unigolyn sy'n peri risg o ran diogelu i blant neu oedolion sy'n agored i niwed, bydd yn ystyried rhoi'r unigolyn hwnnw naill ai ar y rhestr waharddedig ar gyfer plant, y rhestr waharddedig ar gyfer oedolion neu'r ddwy restr. Ar ôl iddo gael ei roi ar y rhestr waharddedig briodol, bydd Person Cofrestredig yn awtomatig yn anghymwys i weithio yn unrhyw un o'r saith proffesiwn cofrestredig gyda'r Cyngor.
40. Fodd bynnag, ym mhrofiad y Cyngor, ni chaiff unigolyn ei roi ar y rhestr waharddedig fel arfer tan iddo gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl, yn ystod ymchwiliad troseddol, nad yw'r amddiffyniad a gynigir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn mynd i'r afael â'r risgiau diogelu yn llawn.

Dyletswydd cyflogwr i roi gwybodaeth i'r Cyngor

41. Mae adran 36 o Ddeddf 2014 ac Atodlen 5 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i gyflogwr ei rhoi i'r Cyngor.
42. Pa fydd cyflogwr yn dewis diswyddo Person Cofrestredig oherwydd honiadau difrifol, mae'n ofynnol iddo roi gwybod i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw cael gwybod am honiadau difrifol yn erbyn Person Cofrestredig ar adeg ei ddiswyddo yn mynd i'r afael â'r risg y bydd Person Cofrestredig yn chwilio am gyflogaeth

amgen, er enghraifft fel tiwtor preifat, yn ystod unrhyw gyfnod tra bydd wedi'i atal dros dro.

Amodau mechnïaeth yr heddlu

43. Os bydd person a gyhuddir yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth, mae'n bosibl y bydd amodau yn gysylltiedig â hynny er mwyn amddiffyn plant a phobl agored i niwed.
44. Hyd yn oed pan fydd amodau, ni fydd yr amodau hyn bob amser yn atal unigolyn sy'n chwilio am waith preifat er mwyn cael mynediad at blant, rhag gwneud hynny. Wrth wneud hynny, gallai ddefnyddio ei statws fel Person Cofrestredig i brofi i rieni ei fod yn addas i ymgymryd â rôl diwtora.

Dyletswyddau statudol a chanllawiau cysylltiedig

45. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau Addysg Bellach ddyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt ystyried y canllawiau statudol, 8“Cadw dysgwyr yn ddiogel – rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002”. Golyga hyn fod yn rhaid ystyried y canllawiau a chyfiawnhau unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrthynt.
46. Ymhlith materion eraill, mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r trefniadau sefydliadol a'r trefniadau rheoli y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn diogelu plant yn y gwasanaeth addysg. Mae hefyd yn nodi'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau o ran diogelu a rennir gan bob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg wrth ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
47. Er bod y canllawiau hyn yn gwneud llawer i ddiogelu plant, nid yw'n mynd i'r afael â'r broblem sy'n gysylltiedig ag unigolyn sy'n chwilio am waith preifat er mwyn cael mynediad at blant, ac sy'n defnyddio ei statws fel Person Cofrestredig i brofi ei fod yn addas.

Pryd y byddai'r Cyngor yn ystyried gwneud gorchymyn atal dros dro interim?

Prawf “Budd y Cyhoedd”

48. Os caiff y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, dim ond mewn achosion difrifol, lle mae'r Cyngor o'r farn bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd, y câi'r pwerau hyn eu defnyddio.

⁸ <https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel>

49. Gellid gwneud gorchymyn atal dros dro interim cyn i unrhyw ymholiadau gan yr heddlu gael eu cwblhau a chyn i unrhyw un gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd - a chyn ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu - dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y byddai'r Cyngor yn ystyried bod gosod gorchymyn atal dros dro interim er budd y cyhoedd:
- mae'r honiadau yn erbyn Person Cofrestredig o natur ddifrifol iawn;
 - mae'r honiadau yn codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu; a hefyd
 - mae credadwyedd yr atgyfeiriad – a'r honiadau a geir ynddo – yn ddigon cadarn.
50. Wrth asesu pa mor ddifrifol yw'r honiadau ac a ydynt yn codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu, byddai'r Cyngor yn ystyried materion megis y canlynol:
- natur a difrifoldeb yr ymddygiad honedig;
 - y risg o niwed i blant, pobl ifanc, cydweithwyr a'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r Person Cofrestredig;
 - pa mor debygol ydyw y bydd yn digwydd eto;
 - difrifoldeb y niwed posibl pe bai'r ymddygiad yn digwydd eto;
 - amgylchiadau unigol y Person Cofrestredig ac a ydynt yn gwrthbwysu unrhyw risg o niwed; a hefyd
 - yr effaith ar hyder y cyhoedd.
51. Byddai honiadau o gamymddwyn rhywiol difrifol, neu niwed corfforol, emosiynol a/neu feddyliol difrifol, bob amser yn cael eu hystyried yn rhai sy'n codi pryderon sylweddol o ran diogelu. Yn yr un modd, pe bai'r heddlu yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn cynnal ymchwiliad troseddol difrifol a oedd yn codi pryder ynghylch diogelu, byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried yn fater sylweddol.
52. Pe bai'r Cyngor yn cael gwybodaeth – gan yr heddlu neu gyflogwyr neu o unrhyw ffynhonnell arall – am achos llai difrifol o gamymddwyn nad yw'n codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu, mae'n debygol y byddai honiadau o'r fath yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gosod gorchymyn atal dros dro interim.
53. Wrth asesu credadwyedd yr atgyfeiriad ac a yw'r honiadau a geir ynddo yn ddigon cadarn, byddai'r Cyngor yn ystyried pwy wnaeth yr atgyfeiriad hwnnw. Pe bai wedi'i wneud gan yr heddlu neu'r DBS, byddai'n debygol y tybid bod yr atgyfeiriad - a'r honiadau a wneir ynddo - yn ddigon credadwy a chadarn er mwyn i'r Cyngor allu ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim.
54. Pe bai atgyfeiriad yn dod o ffynhonnell arall, megis cyflogwr neu aelod o'r cyhoedd, byddai'r Cyngor yn gwneud ymholiadau pellach fel rhan o'i broses o ystyried credadwyedd yr atgyfeiriad hwnnw. Er enghraifft, byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r heddlu i gael cyngor ynghylch p'un a oes "angen cymdeithasol brys" i'r Cyngor weithredu yn eu barn hwy.
55. Pe bai'n amlwg bod yr honiadau mewn atgyfeiriad yn anwir, ni fyddai'r atgyfeiriad hwnnw'n ddigon cadarn er mwyn i'r Cyngor ystyried gwneud gorchymyn atal dros dro interim. Er enghraifft, pe bai athro yn cael ei gyhuddo o gam-drin disgybl ar safle'r ysgol yn ystod diwrnod ysgol penodol, ond y gall yr athro ddangos nad oedd yn yr ysgol ar y diwrnod penodol hwnnw, yna ni fyddai'r honiad yn ddigon cadarn er mwyn i'r Cyngor ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim.

Ystyriaethau pellach

56. Prif ddiben gosod gorchymyn atal dros dro interim yw amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, wrth ystyried p'un a ddylai wneud gorchymyn atal dros dro interim ai peidio, byddai'r Cyngor hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar y Person Cofrestredig yn ofalus. Byddai hyn yn cynnwys ystyried y canlyniadau personol, ariannol a phroffesiynol i'r Person Cofrestredig.
57. Byddai angen ystyried cymesuredd – ni ddylai canlyniadau gorchymyn atal dros dro interim fod yn anghymesur â'r niwed posibl i'r Person Cofrestredig. Wrth ystyried a yw gorchymyn atal dros dro interim yn gymesur, byddai angen i'r Cyngor bwysu a mesur yr effaith ar y Person Cofrestredig yn erbyn y budd cyhoeddus wrth osod gorchymyn atal dros dro interim a difrifoldeb yr honiadau.

Beth fyddai'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn atal dros dro interim?

(Er mwyn rhoi darlun llawn o'r broses arfaethedig o wneud, adolygu a diddymu gorchymynion atal dros dro interim, ym mharagraffau 58 i 89 isod, yn ogystal â'r rhannau hynny o'r broses y darperir ar eu cyfer yng Ngorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchymynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) ("y Gorchymyn arfaethedig"), rydym hefyd wedi disgrifio'r rhannau hynny o'r broses y mae'r Cyngor yn disgwyl eu "pennu" drwy ddefnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor.

Dangosir y rhannau hynny o'r broses y darperid ar eu cyfer yn y Gorchymyn arfaethedig mewn glas.

Ceir trosolwg o'r defnydd y disgwylir i'r Cyngor ei wneud o'r rheolau gweithdrefnol o dan erthygl 16 o'r Gorchymyn arfaethedig ym mharagraffau 90 i 94.

Ceir crynodeb o ddarpariaethau'r Gorchymyn arfaethedig ym mharagraffau 96 i 140.)

58. Pryd bynnag y câi'r Cyngor atgyfeiriad ynghylch Person Cofrestredig a oedd o natur ddifrifol iawn ac yn codi pryderon sylweddol ynghylch diogelu, byddai swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried a ddylid argymhell bod gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei osod. Gallai'r atgyfeiriad hwn ddod o'r heddlu, cyflogwyr, y DBS neu unrhyw ffynhonnell arall.
59. Wrth ystyried a ddylid argymhell bod gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei osod, byddai'r swyddog yn defnyddio prawf "er budd y cyhoedd" a'r "ystyriaethau pellach" a esbonnir ym mharagraffau 55 i 65 uchod. Os na chafodd yr atgyfeiriad ei wneud gan yr heddlu na'r DBS, byddai hyn yn cynnwys cysylltu â'r heddlu i gael rhagor o wybodaeth cyn asesu credadwyedd yr atgyfeiriad hwnnw.

60. Pe bai'r swyddog o'r farn bod gorchymyn atal dros dro interim yn briodol, byddai'n gwneud argymhelliad i'r Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addaswydd i Ymarfer yn y Cyngor i'w gymeradwyo, gan nodi ei resymau dros wneud yr argymhelliad.
61. Pe bai'r Cyfarwyddwr yn cymeradwyo argymhelliad y swyddog, câi hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim ei anfon at y Person Cofrestredig yn rhoi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd iddo am y gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim gerbron panel annibynnol. Diben hyn yw rhoi amser i'r Person Cofrestredig gael cyngor cyfreithiol a chyngor gan ei undeb llafur a pharatoi unrhyw sylwadau y mae am eu cyflwyno.
62. Câi aelodau'r panel annibynnol eu dewis o blith cronfa'r Cyngor o aelodau hyfforddedig y panel addaswydd i ymarfer.
63. Câi'r gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim ei gynnal yn breifat, oni fyddai'r Person Cofrestredig yn gofyn am wrandawriad cyhoeddus. Gallai'r gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg, ar gais y Person Cofrestredig.
64. Byddai gan y Person Cofrestredig yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau ar lafar yn y gwrandawriad lle mae ei achos yn cael ei ystyried, a sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad hwnnw. Byddai ganddo hawl hefyd i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o unigolion.
65. Os nad ymddangosodd Person Cofrestredig yn y gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim lle roedd ei achos yn cael ei ystyried, gall gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel cyn y gwrandawriad. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pe bai'r Person Cofrestredig yn cydsynio i osod y gorchymyn atal dros dro interim.
66. Byddai'r hysbysiad o fwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim yn dweud wrth y Person Cofrestredig y gall roi ei ganiatâd i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud, ac os felly:
- byddai'r panel annibynnol yn ymgynnull ac yn cynnal gwrandawriad byr er mwyn cadarnhau y byddai gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei osod;
 - byddai'r panel yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae'r Person Cofrestredig wedi'u gwneud; a
 - gallai'r gwrandawriad gael ei gynnal "yn bersonol", neu drwy ddefnyddio cyfleuster telegynadledda neu gynadledda dros y ffôn.
67. Byddai'r hysbysiad hefyd yn dweud wrth y Person Cofrestredig, pe na bai'n rhoi ei ganiatâd i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei osod, y byddai ganddo'r hawl i:
- gyflwyno sylwadau ar lafar i'r panel annibynnol yn y gwrandawriad, a sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad
 - cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o unigolion (er enghraifft, cynrychiolydd undeb neu gyfreithiwr);
 - cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel eu hystyried os na fydd yn bresennol yn y gwrandawriad; a
 - gofyn am wrandawriad cyhoeddus, fel arall câi'r gwrandawriad ei gynnal yn breifat.

68. Pe câi gorchymyn atal dros dro interim ei osod, câi cofrestrriad unigolyn â'r Cyngor ei ddileu dros dro, am gyfnod o hyd at 18 mis.
69. Byddai gorchymyn atal dros dro interim yn gymwys i bob categori a ddelir ar gofnod y Person Cofrestredig, am y byddai gosod gorchymyn atal dros dro interim yn golygu na fyddai'r Person Cofrestredig yn gymwys i gael ei gofrestru â'r Cyngor mewn unrhyw un o gategoriâu'r gweithlu addysg. (Gweler paragraff 6 am restr o holl gategoriâu cofrestru'r gweithlu addysg).
70. Byddai'r gorchymyn atal dros dro interim yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- penderfyniad y Cyngor;
 - y dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
 - y dyddiad y daw'r gorchymyn atal dros dro interim i rym. (Fel arfer, byddai gorchymyn atal dros dro interim yn dod i rym ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad i'r Person Cofrestredig, oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall).
71. Byddai'r hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei gyflwyno o fewn 3 diwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad i'r canlynol:
- yr unigolyn y cafodd ei wneud yn ei erbyn (“y cyn-Berson Cofrestredig”),
 - cyflogwr presennol neu ddiwethaf y cyn-Berson Cofrestredig; a
 - unrhyw asiantaeth addysgu roedd y cyn-Berson Cofrestredig wedi'i gofrestru â hi.
72. Byddai'r hysbysiad o fwriad i wneud y gorchymyn atal dros dro interim yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- testun y gorchymyn atal dros dro interim;
 - disgrifiad o effaith y gorchymyn atal dros dro interim;
 - rhesymau'r Cyngor dros wneud y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
 - esboniad o hawl y cyn-Berson Cofrestredig i ofyn i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim.

Yr hawl i ofyn am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim

73. Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 71 a 72 uchod, byddai'r Cyngor yn hysbysu'r cyn-Berson Cofrestredig am ei hawl i ofyn i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim o fewn 3 diwrnod gwaith i'r penderfyniad i osod y gorchymyn atal dros dro interim.
74. Byddai'r cyn-Berson Cofrestredig yn gallu gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim o fewn 6 mis i'r dyddiad y'i gwnaed, a bob chwe mis ar ôl hynny.
75. Byddai angen i gais i adolygu gorchymyn atal dros dro interim – lle y byddai panel adolygu annibynnol yn ystyried diddymu'r gorchymyn atal dros dro interim – gael ei wneud yn ysgrifenedig ac esbonio'r rhesymau pam roedd y cyn-Berson Cofrestredig yn gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim.

Byddai'n rhaid i'r cais gael ei ategu gan bob dogfen roedd y cyn-Berson Cofrestredig yn dibynnu arni i gefnogi ei gais.

76. Pryd bynnag y byddai'r Cyngor yn derbyn cais i ddi-ddymu gorchymyn atal dros dro interim, byddai'n pennu dyddiad ar gyfer gwrandawriad adolygu o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y cais hwnnw ac yn anfon hysbysiad o'r gwrandawriad at y cyn-Berson Cofrestredig.
77. Câi'r gwrandawriad adolygu ei gynnal yn breifat, oni fyddai'r cyn-Berson Cofrestredig yn gofyn am wrandawriad cyhoeddus. Gellir cynnal y gwrandawriad yn Gymraeg neu Saesneg, ar gais y Person Cofrestredig.
78. Byddai gan y cyn-Berson Cofrestredig yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau ar lafar yn y gwrandawriad lle roedd ei achos yn cael ei ystyried, a sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad hwnnw. Byddai ganddo hawl hefyd i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o unigolion.
79. Os nad ymddangosodd cyn-Berson Cofrestredig yn y gwrandawriad adolygu lle roedd ei achos yn cael ei ystyried, gall gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel.
80. Byddai'r hysbysiad o'r gwrandawriad adolygu yn hysbysu'r cyn-Berson Cofrestredig am ei hawl i:
 - gyflwyno sylwadau ar lafar i'r panel adolygu annibynnol yn y gwrandawriad, a sylwadau ysgrifenedig cyn ac yn ystod y gwrandawriad;
 - cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gan un neu fwy o unigolion (er enghraifft, cynrychiolydd undeb neu gyfreithiwr);
 - cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r panel eu hystyried os na fydd yn bresennol yn y gwrandawriad; a hefyd
 - gofyn am wrandawriad cyhoeddus, fel arall câi'r gwrandawriad ei gynnal yn breifat.
81. Byddai'r hysbysiad hefyd yn dweud wrth y cyn-Berson Cofrestredig y gall roi ei ganiatâd i'r panel adolygu wneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid diddymu'r gorchymyn atal dros dro interim ai peidio, ac os felly:
 - bydd y panel adolygu yn ymgynnull ac yn cynnal gwrandawriad byr er mwyn cadarnhau penderfyniad yr adolygiad;
 - bydd y panel adolygu yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig y mae'r Person Cofrestredig wedi'u cyflwyno; a hefyd
 - gellir cynnal y gwrandawriad "yn bersonol", neu drwy ddefnyddio cyfleuster telegynadledda neu gynadledda dros y ffôn.
82. Ni fyddai panel y gwrandawriad adolygu yn cynnwys unrhyw un o aelodau'r panel annibynnol a osododd y gorchymyn atal dros dro interim.
83. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor hysbysu'r cyn-Berson Cofrestredig yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad o fewn 3 diwrnod gwaith i benderfyniad y panel, a rhoi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw.

Adolygu gorchymyn atal dros dro interim gan y Cyngor

84. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor adolygu gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd fel y bo'n briodol, yn ei farn ef, ac yn unol â'i reolau gweithdrefnol. Câi'r adolygiad "mewnol" hwn ei gynnal p'un a fyddai cyn-Berson Cofrestredig yn arfer ei hawl ai peidio i gael adolygiad drwy ofyn i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim roedd wedi'i osod arno.
85. Câi'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn ei phennu gan y panel annibynnol pan fyddai'n gosod y gorchymyn atal dros dro interim i ddechrau. Fel arfer, byddai hyn yn digwydd bob 6 mis, oni châi'r panel ei hysbysu am newid mewn amgylchiadau, pan allai ymgynnull yn gynharach nag a fwriadwyd yn wreiddiol.
86. Yn yr adolygiad mewnol hwn ni chynhelid "gwrandawriad" adolygu, ond, yn hytrach, cynhelid "cyfarfod" adolygu o'r panel annibynnol. Fel rheol, ni ofynnid i'r cyn-Berson Cofrestredig gyflwyno sylwadau i'r panel yn y cyfarfod adolygu.
87. Fel arfer byddai'r panel annibynnol, a fyddai'n cynnal yr adolygiad, yn cynnwys yr un unigolion ag a osododd y gorchymyn atal dros dro interim i ddechrau.

Pryd y câi gorchymyn atal dros dro interim ei ddiddymu?

88. Byddai'r Cyngor yn diddymu gorchymyn atal dros dro interim o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - pe bai'r Cyngor yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb cyn dechrau ymchwiliadau'r Cyngor ei hun, sy'n rhan o'i swyddogaethau disgyblu o dan adran 26 o Ddeddf 2014; neu
 - pe bai'r Cyngor yn rhoi'r gorau i ymchwiliad i'r ymddygiad honedig a arweiniodd at osod gorchymyn atal dros dro interim, am nad oes unrhyw achos i'w ateb neu ar ryw sail arall.
 - pe bai'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid gosod gorchymyn disgyblu ai peidio (esbonnir "gorchymyn disgyblu" ym mharagraffau 9 a 10 uchod); neu
 - pe cynhelid adolygiad i ystyried cais gan gyn-Berson Cofrestredig i ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim, ac y byddai'r adolygiad hwnnw'n penderfynu y dylid diddymu'r gorchymyn atal dros dro interim.
89. Byddai gorchymyn atal dros dro interim yn peidio â bod yn awtomatig pan ddaw'r cyfnod y'i gosodwyd ar ei gyfer i ben. (Gellir gosod gorchymyn atal dros dro interim am gyfnod o hyd at 18 mis).

Defnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor

90. Byddai gan y Cyngor y pŵer i bennu ei reolau ei hun mewn perthynas â phenderfyniadau i osod gorchymynion atal dros dro interim, yr hawl i Berson Cofrestredig wneud cais i ddiddymu gorchymyn atal dros dro interim drwy wrandawriad adolygu, a'r broses adolygu "fewnol". Ymdrinnir â llawer o'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwneud gorchymynion atal dros dro interim, yn

ogystal ag adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, drwy ddefnyddio'r rheolau hyn.

91. Er enghraifft, mae erthygl 3 o'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud gorchmynion atal dros dro interim os bydd o'r farn bod "angen gwneud hynny er budd y cyhoedd". Fodd bynnag, rheolau gweithdrefnol a fydd yn esbonio'r hyn a olygir gan brawf "budd y cyhoedd", a sut y caiff ei ddefnyddio yn ymarferol pan fydd y Cyngor yn ystyried a ddylai wneud gorchymyn atal dros dro interim.
92. Fel enghraifft arall, er bod erthygl 4 o'r Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i'r Person Cofrestredig o'r bwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim, rheolau gweithdrefnol y Cyngor ei hun fydd yn nodi'r hyn y bydd yn rhai i'r hysbysiad hwn ei gynnwys. (Gweler paragraffau 66 a 67 am esboniad o'r hyn y disgwylir i'r hysbysiad ei gynnwys).
93. Fodd bynnag, dim ond â materion na ddarperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn arfaethedig y caiff rheolau gweithdrefnol ymdrin. Er enghraifft, am fod erthygl 4 o'r Gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i'r Person Cofrestredig o'i fwriad i osod gorchymyn atal dros dro interim arno, ni allai rheolau gweithdrefnol newid y gofyniad hwn.
94. Byddai'r Cyngor yn ymgynghori ar y rheolau gweithdrefnol hyn cyn iddynt gael eu gwneud neu eu diwygio, a byddai'n rhaid iddo eu cyhoeddi ar ei wefan a darparu copïau ar gais i unrhyw Berson Cofrestredig neu gyn-Berson Cofrestredig.

Crynodeb o Orchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru)

95. Atodir y Gorchymyn arfaethedig a fydd yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim yn Atodiad A. Byddai'r pŵer hwn yn gymwys i bob categori o Berson Cofrestredig.

Erthygl 1 – Teitl a Chychwyn

96. Mae'r erthygl hon yn pennu enw'r Gorchymyn arfaethedig a phryd y daw i rym.
97. Nid yw'r dyddiad dod i rym wedi'i gwblhau. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn penderfynu a fydd y Gorchymyn arfaethedig yn mynd ymlaen ar ei ffurf bresennol, os o gwbl.

Erthygl 2 – Dehongli

98. Mae'r erthygl hon yn esbonio y cyfeirir at Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 fel "Deddf 2014" drwy'r Gorchymyn.
99. Mae'r erthygl hon yn esbonio y cyfeirir at Gyngor y Gweithlu Addysg fel "y Cyngor" drwy'r Gorchymyn.

100. Mae'r erthygl hon yn egluro bod i "orchymyn disgyblu" yn y Gorchymyn yr un ystyr ag yn Neddf 2014, sef cerydd, gorchymyn cofrestru amodol, gorchymyn atal neu orchymyn gwahardd.
101. Mae'r erthygl hon yn diffinio "diwrnod gwaith" fel unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc.
102. Mae'r diffiniad o "ddiwrnod gwaith" yn bwysig, am fod ein cynigion yn gofyn bod y Cyngor a'r Personau Cofrestredig yn cynnal tasgau penodol o fewn nifer penodol o ddiwrnodau gwaith. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r Cyngor roi 10 diwrnod gwaith o rybudd i Berson Cofrestredig o'i fwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim. Diben hyn yw rhoi digon o amser i'r Person Cofrestredig gael cyngor cyfreithiol a chyngor gan ei undeb llafur a pharatoi unrhyw sylwadau y mae am eu cyflwyno.

Erthygl 3 – Gorchmynion atal dros dro interim

103. Mae'r erthygl hon yn galluogi'r Cyngor i osod gorchymyn atal dros dro interim ar Berson Cofrestredig hyd nes y gwneir gorchymyn disgyblu yn ei erbyn [Erthygl 3(1)]
104. Er mwyn gosod gorchymyn atal dros dro interim, rhaid i'r Cyngor ymgynnull panel priodol yn gyntaf i ystyried yr achos mewn gwrandawriad. [Erthygl 3(2) a 3(3)]
105. Mae'r erthygl hon yn cadarnhau y gellir ond gwneud gorchymyn atal dros dro interim cyn penderfyniad terfynol ar orchymyn disgyblu, a dim ond ar yr amod bod y Cyngor o'r farn bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd. [Erthygl 3(4)]
106. Ar ôl i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud, bydd yn rhaid tynnu enw'r Person Cofrestredig oddi ar y Gofrestr [Erthygl 3(5)]. (Os bydd y Person Cofrestredig wedi'i gofrestru mewn mwy nag un o gategoriâu'r gweithlu addysg, caiff ei enw ei ddileu o bob categori cofrestru).
107. Cyfyngir y cyfnod y gellir gosod gorchymyn atal dros dro interim i 18 mis. [Erthygl 3(6)].
108. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu p'un a ddylai osod gorchymyn atal dros dro interim yn unol â'r Gorchymyn arfaethedig, ac unrhyw reolau gweithdrefnol y mae'n eu gwneud o dan erthygl 16, ai peidio. [Erthygl 3(7)].

Erthygl 4 – Hysbysiad o fwriad i wneud gorchymyn atal dros dro interim

109. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd i Berson Cofrestredig o'i fwriad i osod gorchymyn atal dros dro interim ar y Person hwnnw. [Erthygl 4(1)]
110. Mae'n rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys natur yr honiadau yn erbyn y Person Cofrestredig ac mae'n rhaid iddo ei hysbysu o'i hawliau o dan erthygl 5. [Erthygl 4(2)]

Erthygl 5 – Yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau

111. Mae'r erthygl hon yn rhoi'r hawl i Berson Cofrestredig ymddangos a chyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y gwrandawriad lle mae ei achos yn cael ei ystyried, [Erthygl 5(b)(c)(d)].
112. At hynny, mae gan y Person Cofrestredig yr hawl i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad hwnnw. Er y bydd cynrychiolwyr yn gynghorwyr cyfreithiol neu undebol fel arfer, caiff y Person Cofrestredig ddewis unrhyw un i'w gynrychioli. Gall fod mwy nag un cynrychiolydd hefyd. [Erthygl 5(e)].
113. P'un a fydd Person Cofrestredig yn ymddangos ai peidio yn y gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim lle roedd ei achos yn cael ei ystyried, gall gyflwyno sylwadau cyn y gwrandawriad. [Erthygl 5(a)]

Erthygl 6 – Cynnwys gorchymyn atal dros dro interim

114. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn atal dros dro interim gofnodi'r canlynol:
 - penderfyniad y Cyngor;
 - y dyddiad y gwneir y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
 - y dyddiad y daw'r gorchymyn atal dros dro interim i rym.

Erthygl 7 – Dyddiad dod i rym gorchymyn atal dros dro interim

115. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn atal dros dro interim ddod i rym ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o wneud y gorchymyn atal dros dro interim i'r unigolyn y'i gwnaed yn ei erbyn, oni fydd y Cyngor yn penderfynu fel arall. Yn yr achos hwnnw, daw i rym ar y dyddiad a nodir yn y gorchymyn.

Erthygl 8 – hysbysiad o wneud gorchymyn atal dros dro interim

116. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad o wneud y gorchymyn atal dros dro interim i'r cyn-Berson Cofrestredig y'i gwnaed yn ei erbyn. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim. [Erthygl 8(1)].
117. Mae'n rhaid i'r hysbysiad o wneud y gorchymyn atal dros dro interim gynnwys y canlynol:
 - testun y gorchymyn atal dros dro interim;
 - disgrifiad o effaith y gorchymyn atal dros dro interim;
 - rhesymau'r Cyngor dros wneud y gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
 - esboniad o hawl y cyn-Berson Cofrestredig i ofyn i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim sydd wedi'i osod arno. [Erthygl 8(2)]
118. Mae'n rhaid i'r Cyngor gyflwyno hysbysiad i gyflogwr presennol neu ddiwethaf y Person Cofrestredig, ac unrhyw asiantaeth addysgu y mae'r Person wedi'i gofrestru â hi. [Erthygl 8(3)];

Erthygl 9 – Yr hawl i ofyn am wrandawriad cyhoeddus

119. Mae'r erthygl hon yn rhoi'r hawl i'r Cyngor gyd-drafod yn breifat unrhyw bryd, ac am unrhyw reswm, yn ystod neu ar ôl gwrandawriad. Felly, cynhelir pob gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim a phob gwrandawriad adolygu yn breifat oni fydd y Person Cofrestredig neu'r cyn-Berson Cofrestredig yn gofyn am wrandawriad cyhoeddus [Erthygl 9 (1) a (2)].
120. Pryd bynnag y gofynnir am wrandawriad gorchymyn atal dros dro interim neu wrandawriad adolygu, caiff y Cyngor wrthod mynediad i'r cyhoedd i'r gwrandawriad hwnnw – neu unrhyw ran o'r gwrandawriad hwnnw – os bydd y Cyngor o'r farn bod angen gwneud hynny er budd cyfiawnder neu er mwyn diogelu budd plant. [Erthygl 9(3)].

Erthygl 10 – diddymu gorchymyn atal dros dro interim

121. Mae'r erthygl hon yn nodi'r amgylchiadau lle y caiff y Cyngor ddiddymu gorchymyn atal dros dro interim, sef:
- mae'r Cyngor yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb cyn dechrau ei ymchwiliadau o dan adran 26(1) o Ddeddf 2014 [Erthygl 10(a)];
 - mae'r Cyngor yn rhoi'r gorau i'w ymchwiliad i'r ymddygiad honedig a arweiniodd at osod gorchymyn atal dros dro interim, am nad oes unrhyw achos i'w ateb neu ar ryw sail arall, fel y darperir gan adran 26(3)(a) neu (c) o Ddeddf 2014 [Erthygl 10(b)];
 - mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylai osod gorchymyn disgyblu ai peidio (esbonir ystyr "gorchymyn disgyblu" ym mharagraffau 9 a 10 uchod) [Erthygl 10(c)]; neu
 - cynhelir adolygiad er mwyn ystyried cais gan gyn-Berson Cofrestredig i ddiddymu gorchymyn atal dros dro interim ac mae'r adolygiad hwnnw yn penderfynu y dylid diddymu'r gorchymyn atal dros dro interim [Erthygl 10(d)].

(Daw gorchymyn atal dros dro interim i ben yn awtomatig pan ddaw'r cyfnod y caiff ei osod ar ei gyfer i ben. Gellir gosod gorchymyn atal dros dro interim am gyfnod o hyd at 18 mis, fel y darperir gan erthygl 3.)

Erthygl 11 – Cais i adolygu gorchymyn atal dros dro interim

122. Mae'r erthygl hon yn rhoi'r rhoi i gyn-Berson Cofrestredig ofyn i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim sydd wedi'i osod arno. Gellir gwneud y cais hwn o fewn 6 mis i ddyddiad y gorchymyn atal dros dro interim a bob chwe mis ar ôl hynny o ddyddiad yr adolygiad diwethaf [Erthygl 11(1)].
123. Pryd bynnag y gwneir cais i ddiddymu gorchymyn atal dros dro interim, mae'n rhaid i'r Cyngor drefnu gwrandawriad er mwyn ystyried yr achos o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y cais hwnnw. [Erthygl 11(2)].

124. Dim ond yn unol â'r Gorchymyn arfaethedig hwn a'r rheolau gweithdrefnol a wneir gan y Cyngor o dan erthygl 16 y caiff y Cyngor ddiddymu gorchymyn atal dros dro interim. [Erthygl 11(3)].
125. Ni chaiff unrhyw un a ystyriodd yr achos yn y gwrandawriad lle y gosodwyd gorchymyn atal dros dro interim gymryd rhan mewn adolygiad o'r gorchymyn atal dros dro interim hwnnw o dan erthygl 11. [Erthygl 11(4)].

Erthygl 12 – Gwybodaeth i'w chyflwyno gyda chais am adolygiad

126. Mae'n rhaid i gais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim a wneir o dan erthygl 11:
- fod yn ysgrifenedig;
 - nodi ar ba sail y mae'r cyn-Berson Cofrestredig yn gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim; a hefyd
 - gael ei ategu gan bob dogfen y mae'r cyn-Berson Cofrestredig yn dibynnu arni i gefnogi ei gais.

Erthygl 13 – Adolygu gan y Cyngor

127. Yn ogystal ag adolygiadau o dan erthygl 11 (sy'n ymdrin â cheisiadau cyn-Bersonau Cofrestredig i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymynion atal dros dro interim sydd wedi'u gosod arnynt), mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu gorchymynion atal dros dro interim yn rheolaidd fel y bo'n briodol, yn ei farn ef. [Erthygl 13(2)].
128. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ei adolygiadau o dan erthygl 13 yn unol â'r rheolau gweithdrefnol a wnaed gan y Cyngor o dan erthygl 16. [Erthygl 13(2)].

Erthygl 14 – Yr hawl i ymddangos a chyflwyno sylwadau

129. Mae'r erthygl hon yn rhoi'r hawl i Berson Cofrestredig ymddangos a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac ar lafar yn y gwrandawriad lle mae ei achos yn cael ei ystyried [Erthygl 14 (b), (c), (d)].
130. At hynny, mae gan y cyn-Berson Cofrestredig yr hawl i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad adolygu hwnnw. Er y bydd cynrychiolwyr yn gynghorwyr cyfreithiol neu undebol fel arfer, caiff y Person Cofrestredig ddewis unrhyw un i'w gynrychioli. Gall fod mwy nag un cynrychiolydd hefyd. [Erthygl 14(e)].
131. P'un a fydd Person Cofrestredig yn ymddangos ai peidio yn y gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim lle roedd ei achos yn cael ei ystyried, gall gyflwyno sylwadau cyn y gwrandawriad. [Erthygl 14(a)]

Erthygl 15 – Hysbysiad o benderfyniad yn dilyn adolygiad o orchymyn atal dros dro interim

132. Yn dilyn adolygiad o orchymyn atal dros dro interim ar gais cyn-Berson Cofrestredig o dan erthygl 11, mae'n ofynnol i'r Cyngor hysbysu'r Person hwnnw yn ysgrifenedig am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto. Mae'n rhaid i'r Cyngor

gyflwyno'r hysbysiad o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad.

Erthygl 16 – Darpariaeth arall ynghylch gweithdrefnau i'w gwneud gan y Cyngor

133. Mae'r erthygl hon yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor bennu ei weithdrefnau ei hun mewn perthynas â gosod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, pan nad yw darpariaeth o'r fath wedi'i gwneud eisoes yn y Gorchymyn arfaethedig. [Erthygl 16(1)].
134. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i ddiwygio unrhyw reolau gweithdrefnol a wneir ganddo. [Erthygl 16(2)].

Erthygl 17 - Cyhoeddi dogfennau a darparu copïau ohonynt

135. Mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi unrhyw reolau gweithdrefnol a wneir ganddo o dan erthygl 16 o'r Gorchymyn arfaethedig. Mae'n rhaid eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mewn unrhyw ffordd arall sy'n briodol, ym marn y Cyngor. [Erthygl 17(1)].
136. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu copi o'r rheolau gweithdrefnol a wnaed ganddo o dan erthygl 16 i Berson Cofrestredig neu gyn-Berson Cofrestredig os bydd yn gofyn iddo wneud hynny. [Erthygl 17(2)].

Erthygl 18 – Cyflwyno hysbysïadau

137. Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer y dulliau y mae'n rhaid eu defnyddio i gyflwyno hysbysiad sy'n ofynnol gan y Gorchymyn arfaethedig ("hysbysiad gofynnol").
138. Y dulliau cyflwyno rhagnodedig yw:
 - drwy ddsbarthiad personol (h.y. â llaw) i'r unigolyn y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad iddo;
 - drwy'r post i'r cyfeiriad yr hysbyswyd y Cyngor amdano gan yr unigolyn y cyflwynir yr hysbysiad iddo; a hefyd
 - drwy bost electronig, ar yr amod bod yr unigolyn y cyflwynir yr hysbysiad iddo wedi gofyn am y dull cyflwyno hwn. [Erthygl 18(1)].
139. Mae'r erthygl hon hefyd yn nodi pryd y tybir bod hysbysiad gofynnol wedi'i gyflwyno. [Erthygl 18(2)].
140. Yr adegau cyflwyno tybiedig yw:
 - pan gaiff hysbysiad ei gyflwyno drwy ddsbarthiad personol, y diwrnod y'i dosbarthwyd;
 - pan gyflwynir hysbysiad drwy'r post i gyfeiriad a nodwyd, y diwrnod gwaith nesaf; a hefyd
 - pan gaiff hysbysiad ei gyflwyno drwy bost electronig, y diwrnod y'i hanfonwyd. [Erthygl 18(2)].

Gorchymyn Arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru)

141. Mae Gorchymyn drafft arfaethedig wedi'i atodi yn Atodiad A.

Memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol drafft.

142. Atodir Memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol drafft ar ein Gorchymyn drafft arfaethedig yn Atodiad B.

143. Rydym yn gofyn nifer o gwestiynau am yr asesiad effaith rheoleiddiol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

144. Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i atodi yn Atodiad C.

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 4 Rhagfyr 2020, i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu eu cwblhau'n electronig a'u hanfon i:

E-bost: SMED2@gov.wales

